Beth yw menter bwyd cymunedol?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae mentrau Bwyd Cymunedol yn ymgysylltu â phobl leol er mwyn adeiladu cymunedau cryfach drwy fwyd.

Dyma enghraifft

Clynfyw
Care Farm
Astudiaeth
Achos

Cefndir ac Amcanion y Prosiect:

Dechreuodd Fferm Ofal Clynfyw yn Nyffryn Teifi ym mis Mawrth 2011. Tyfodd o Clynfyw Countryside Centre Ltd, a sefydlwyd yn 1985 i wneud cefn gwlad yn fwy hygyrch i ymwelwyr anabl drwy ddarparu bythynnod hygyrch a gweithgareddau diddorol.

Erbyn hyn mae eu tîm ymroddgar o 39 gweithiwr cyflogedig a 10 gwirfoddolwr yn cefnogi pobl anabl ac agored i niwed, gan ddarparu prosiectau natur llawn pwrpas, yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn galluogi dysgu, ymgysylltu, cyfraniad ac – yn bwysig iawn - hwyl!

Mae eu gweithgareddau ar gyfer oedolion yn cynnwys 'gwasanaethau dydd' a chefnogaeth i 9 o bobl sy'n byw yn y bythynnod ar Fferm Clynfyw yn unol â thrwydded Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Maent hefyd yn rheoli Canolfan Adfer Iechyd Meddwl Kinora yn Aberteifi.

Mae dull gweithredu tîm Fferm Ofal Clynfyw, sy'n cydymffurfio â strategaethau, polisïau a chynlluniau cenedlaethol a lleol er mwyn sicrhau llesiant, yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn creu cyfleoedd i gyfranogwyr brofi pethau newydd, datblygu annibyniaeth, hybu ymdeimlad cyfannol o iechyd a lles, tra'n cyfrannu i'w cymuned leol ac ehangach a chael hwyl!

Drwy gysylltu eu gwasanaethau â hyfforddiant achrededig lle bo'n briodol, maent yn ceisio darparu profiad llawn ac ystyrlon.

"Oni bai am Clynfyw fyddai gen i ddim byd. Fyddwn i'n gwneud dim ond syllu ar fy wal."

Cyflawniadau a Manteision y Prosiect.

Fideo Clynfyw 2018

Cyflwyniad i Ffermio Gofal yn y DU

Adroddiad Gofal diweddaraf AGC am Clynfyw

Fideo Adroddiad Gwasanaethau Natur

Gweithgareddau Garddwriaeth

Erbyn hyn mae gan Fferm Ofal Clynfyw, sydd wedi bod yn ehangu'n raddol er 2014, nifer o brosiectau a mentrau cymdeithasol sy'n cael eu gweithredu drwy ymgysylltu'n llawn â gwirfoddolwyr, cyfranogwyr a'r gymuned leol. Mae llwyddiant, arferion amgylcheddol da ac ymdrechion busnes moesegol wedi cael eu cydnabod drwy Wobr Aur 'Twristiaeth Werdd' yn 2017 a Gwobr 'Arallgyfeirio Gwledig Gorau' yn 2019.

Er 2015, mae'r tîm wedi sicrhau nifer o gontractau i reoli Gwasanaeth Galw i Mewn Iechyd Meddwl Kinora, gan ddyblu nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn a chynyddu ystod y gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gefnogi ac adfer.

Mae tîm Clynfyw yn gweld tyfu bwyd fel ffordd allweddol o gysylltu'r bobl y maent yn eu cefnogi â'r gymuned leol. Maent yn darparu cyfleoedd ac yn cefnogi pobl anabl ac agored i niwed i dyfu bwyd heb gemegion ar y fferm yn eu "gwelyau dim palu" a'u twnelau polythen.

Caiff y cynnyrch y maent yn ei gynaeafu ei ddefnyddio yn y gweithdai coginio ac yn y prydau cymunedol sy'n cael eu darparu sawl gwaith yr wythnos. Maent hefyd yn cyfrannu tuag at ddiogeledd bwyd yn yr ardal leol, drwy gyflenwi unigolion a busnesau bach, a thrwy'r hyfforddiant y maent yn ei gynnig. Maent yn gwella sgiliau mewn dulliau garddwriaethol cynhyrchiol ac yn adeiladu gwytnwch yn y gymuned.

Gan roi pwyslais ar "Wasanaethau Natur", caiff eu hadroddiad a'u cynllun busnes ei rannu â phartïon sydd â diddordeb ac mae'r tîm yn cefnogi darparwyr gwasanaethau tebyg eraill, gan weithredu fel mentor â chyllid yn cael ei reoli gan Social Farms and Gardens. Maent yn cydweithio ac yn arwain gweithgareddau gyda mudiadau cydnaws eraill ac yn darparu lleoliadau myfyrwyr a phrofiad gwaith ymarferol i wirfoddolwyr a phrentisiaid. Maent hefyd wedi ysgrifennu llyfr 'Care Farming for Beginners' i helpu Ffermwyr Gofal eraill i sefydlu gwasanaethau therapiwtig sy'n seiliedig ar natur.

Heriau'r Prosiect a'r Prif Bethau a Ddysgwyd:

Mae tîm Clynfyw yn cyfaddef eu bod wedi wynebu "llawer o heriau dros y blynyddoedd" ond maent wedi gallu goresgyn y rhan fwyaf o'r rhain â chefnogaeth gwahanol asiantaethau a ffrydiau cyllid ac, yn fwyaf arbennig, â chefnogaeth frwd eu cymuned leol.

Maent yn amlwg iawn ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn hyrwyddo eu gwasanaethau drwy Twitter (@clynfywcic) a Facebook (Clynfyw CIC), gan groesawu sylwadau ac adborth cadarnhaol a roddir a chyfeirio partïon sydd â diddordeb at ddeunydd cyffredinol a phenodol am y prosiect ar eu gwefan.

Maent yn teimlo bod defnydd therapiwtig o natur a'i fanteision i iechyd meddyliol a chorfforol wedi dod i gael ei ddeall yn well a'i groesawu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at fwy o hygrededd yn eu gwaith a chynyddu'r galw amdano.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol:

Mae gan Clynfyw Gynllun Deng Mlynedd, o 2020 i 2030, sy'n ceisio eu cefnogi i ddal i ehangu eu gweithgareddau presennol, gan gynnwys datblygu Fframwaith Moesegol ar gyfer Cynaliadwyedd.

Maent yn bwriadu gweithredu Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol ar y fferm er mwyn sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth gymunedol hirdymor, ac ysgrifennu llyfr arall er mwyn helpu eraill i sefydlu prosiectau a mentrau cymdeithasol tebyg.

www.clynfyw.co.uk

Twitter: @clynfywcic
Facebook: Clynfyw CIC

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy
@bwydadiodcymru

Diolch i Fferm Ofal Clynfyw am gymryd rhan yn yr astudiaeth achos hon